# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Craffu Pobl held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Mercher, 30ain Ebrill, 2025 at 2.00 pm**

| Councillors Present | Officers in Attendance |
| --- | --- |
| County Councillor Laura Wright (Chair)<br>County Councillor Jackie Strong, (Vice Chair)<br><br>County Councillors: Jan Butler, Christopher Edwards, Penny Jones, Maureen Powell, Sue Riley, and Peter Strong (substituting for Maria Stevens),<br><br>Also in attendance County Councillors: Tony Kear, Su McConnel Jill Bond and John Crook | Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu<br>Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc<br>Hannah Jones, Pennaeth yr Economi, Cyflogaeth a Sgiliau |

**APOLOGIES:** County Councillors Simon Howarth and Maria Stevens

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

   Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Stevens, gyda'r Cynghorydd Peter Strong yn dirprwyo drosto, a hefyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Simon Howard. Mynychodd pedwar cynghorydd ychwanegol y cyfarfod: y Cynghorydd Tony Kear, y Cynghorydd John Crook, y Cynghorydd Jill Bond, a'r Cynghorydd Sue McConnell.

2. **Datgan Buddiannau**

   Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

3. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

   Roedd presenoldeb o "The Gathering Community", a hysbysodd y Cadeirydd ymlaen llaw yr hoffent gyflwyno nifer o sleidiau. Roedd y Pwyllgor wedi cytuno i roi amser ychwanegol i'r Fforwm Agored i'r Cyhoedd i alluogi aelodau i ofyn cwestiynau hefyd.

   Cyflwynodd Jenny Powell a Scott Price o The Gathering Community eu gwaith yn Stryd Tudur yn y Fenni, gyda ffocws ar ddarparu gwasanaethau hygyrch ar gyfer pobl gydag anableddau a phroblemau iechyd meddwl. Dywedwyd mai nod The Gathering Community yw darparu gwasanaethau hygyrch ar gyfer pobl gydag anableddau a phroblemau iechyd meddwl yn Stryd Tudur yn y Fenni.

   Esboniwyd bod The Gathering Community wedi cymryd les 12 mis yn dechrau o 15 Ionawr 2025. Roedd eu cyflwyniad yn cynnwys lluniau cyn ac wedyn ac ystadegau ar gynnydd eu gwaith. Soniwyd am y cynnydd a wnaed ers cymryd y les, yn cynnwys glanhau, trwsio a darparu gwahanol ofodau gweithgaredd. Fe wnaethant hefyd sôn am y cynnydd yn y nifer sy'n mynychu a gwirfoddolwyr, yn ogystal â'r grantiau a'r codi arian a gyflawnwyd.

Trafodwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- Cyflwr dechreuol yr adeilad: Roedd ffenestri wedi torri yn yr adeilad, gardd wedi gordyfu, celfi anniben a phibell ddŵr wedi torri oedd wedi achosi difrod i'r nenfwd. Yn dilyn glanhau helaeth ac ailaddurno, maent hefyd wedi paratoi gofodau ystafell ddosbarth ar gyfer gweithgareddau crefft, cael tystysgrif diogelwch trydan a chwblhau profion offer diogelwch tân.
- Mae'r nifer sy'n mynychu wedi cynyddu gan 50% a nifer y gwirfoddolwyr wedi treblu.
- O ran grantiau a chodi arian, sicrhawyd £5563 mewn grantiau a chodwyd £2150 mewn dau ddigwyddiad.
- Mae amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau codi arian wedi helpu i godi arian ac ennyn diddordeb y gymuned.
- Cafodd gofodau synhwyraidd a cherddoriaeth eu creu ynghyd â gardd a gofod awyr agored, yn cynnwys clirio rhannau oedd wedi gordyfu, creu gwelyau plannu a phlannu llysiau.
- Cafodd gwasanaethau cwnsela eu cyflwyno gan Emily Watson, cwnselydd cymwysedig a rheolwr llesiant The Gathering Community, sy'n darparu cymorth iechyd meddwl a gweithgareddau llesiant ar gyfer rhai sy'n mynychu bob dydd Mawrth.
- Mae cynlluniau'r dyfodol yn cynnwys trosi'r gegin gefn yn gegin fasnachol ar gyfer gwersi coginio a gweithio gyda chefs lleol. Dywedwyd y byddant yn ceisio cael les hirach i sicrhau cynaliadwyedd y prosiect ac i sicrhau cyllid ychwanegol i barhau eu gwaith.

Mynegodd Aelodau eu hedmygedd a'u cefnogaeth i waith The Gathering Community a thanlinellu pwysigrwydd dysgu o'u profiad.

Cododd Cynghorwyr bryderon am delerau'r les, cynaliadwyedd ariannol a'r angen am gyfleusterau hygyrch. Trafododd Jenny Powell a Scott Price y pryderon hynny a thynnu sylw at y gefnogaeth a gawsant gan fusnesau a'r gymuned leol i helpu cynnal y prosiect.

Daeth y Cadeirydd a'r drafodaeth i ben drwy danlinellu llwyddiant ac effaith gymunedol The Gathering, gan gydnabod gwaith caled ac ymroddiad Jenny, Scott a'r gwirfoddolwyr a diolchodd iddynt am fynychu a rhoi cyflwyniad i'r Pwyllgor.

## 4. Y Prentis - Cynllun Prentisiaeth Adeiladu a Rennir

Cyflwynodd Hannah Jones y cynnig i gau cynllun rhannu prentisiaeth adeiladu y Prentis a'i drosglwyddo i brosiect dan Cyfle, cynllun tebyg yng ngorllewin Cymru.

- Sefydlwyd cynllun Y Prentis yn 2012 gan Gyngor Sir Fynwy a Cartrefi Melin i fynd i'r afael â'r angen am nwyddau a gwasanaethau wedi eu caffael yn gymdeithasol a gwaith yn y diwydiant adeiladu ar draws de-ddwyrain Cymru.
- Trafododd Hannah lwyddiannau y cynllun sydd wedi hyfforddi dros 340 o brentisiaid, sicrhau mwy na £1.95 miliwn mewn cyllid a gweithio gyda phump o golegau a 149 contractwr.
- Dywedodd hefyd fod y cynllun wedi wynebu heriau tebyg i ostyngiad mewn cyfraddau cwblhau, anhawster yn cael lleoliadau, diffygion cyflogau prentisiaeth a cholledion ariannol dros y ddwy flynedd.
- Cynhaliwyd adolygiad gan Gyngor Sir Fynwy a Chyngor Bwrdeistref Torfaen a gyflwynodd ddau opsiwn: dod â gweithrediadau i ben neu ailddylunio'r model cyflenwi. Esboniodd bod Cartrefi Melin, a oedd yn gyfranddaliwr, wedi gadael ym mis Ionawr 2025 ac felly y cynnig oedd trosglwyddo'r cynllun i Cyfle.
- Mae Cyfle yn gynllun rhannu prentisiaeth sydd wedi sefydlu yng ngorllewin Cymru, a fedrai ddod yn gyfrifol am gyflenwi'r cynllun, gan sicrhau pontio llyfn i staff a phrentisiaid.

- Roedd Cyngor Sir Fynwy wedi cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar Cyfle, gan gadarnhau ei fod yn addas i gymryd y cynllun. Mae gan y cwmni presennol warged o £100,000, a fyddai'n cael ei drosglwyddo i Cyfle i gefnogi'r trosglwyddo.
- Yn nhermau cynlluniau ar gyfer y dyfodol, mae Cyngor Sir Fynwy yn anelu i ddatblygu canolfan sgiliau i ddiwallu anghenion plant, pobl ifanc, busnesau a diwydiant yn yr ardal.
- Bydd Cyfle yn rhoi arweinyddiaeth strategol i sicrhau y caiff prentisiaethau eu cwblhau a chefnogi cynaliadwyedd hirdymor y cynllun.

**Pwyntiau allweddol a godwyd gan Aelodau:**

- Pa sicrwydd sydd gennym y bydd y cynllun yn un proffil uchel ac nid dim ond rhan fawr o fwystfil mwy? A oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu fod cael ei redeg gan dri sefydliad yng ngorllewin Cymru yn ffordd ddelfrydol ymlaen?

*Mynegodd Hannah hyder ym model cyflenwi a ffocws busnes Cyfle, gan nodi ei gysylltiad gyda Llywodraeth Cymru a chontractwyr, a dywedodd y byddai ehangu Cyfle i dde ddwyrain Cymru yn effeithlon.*

- Beth yw ffigurau hanesyddol prentisiaid o Sir Fynwy a pham mai dim ond un allan o 60 prentis yw'r ffigur cyfredol?

*Cydnabu Hannah nifer isel y prentisiaid o Sir Fynwy ac esbonio ymdrechion i sicrhau mwy o gyfleoedd. Nododd fod y cynllun yn un rhanbarthol ac y disgwylir niferoedd uwch mewn awdurdodau eraill.*

- Mae'r adroddiad yn sôn am argymhelliad fod y Cyngor yn cael sedd ar y Bwrdd Cyfarwyddwyr newydd. Ai Aelod Cabinet neu swyddog fydd hyn? Pa mor aml mae'r Bwrdd yn cwrdd a beth yw rôl cyfarwyddwyr wrth symud â'r cynlluniau ymlaen?

*Awgrymodd Hannah y byddai swyddog yn fwy addas ar gyfer y sedd ar y bwrdd o gofio'r angen am wybodaeth a diweddariadau rheolaidd.*

- Pam fod cyfraddau cwblhau wedi gostwng yn sylweddol dros y tair blynedd ddiwethaf a beth gafodd ei wnaed i unioni hyn? Beth yw'r adborth gan brentisiaid a chyflogwyr?

*Priodolodd Hannah y gostyngiad mewn cyfraddau cwblhau i heriau cymhwyster Lefel 3 a rhwystrau eraill. Soniodd am sgyrsiau sy'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru a chontractwyr i fynd i'r afael â'r materion hyn.*

- A yw'r ffigur o 340 prentis a £1.95 miliwn mewn cyllid yn benodol i Sir Fynwy neu'r rhanbarth cyfan?

*Eglurodd Hannah fod y ffigurau ar gyfer y rhanbarth cyfan gyda Sir Fynwy â nifer gymesur o brentisiaid.*

- Mae gennym bryderon am leoliad daearyddol Cyfle yng ngorllewin Cymru a pheidio bod â chanolfan leol ac os y byddai hyn yn creu problemau teithio ar gyfer prentisiaethau ac y gallai effeithio ar gyswllt gyda busnesau lleol. Hefyd rydym yn bryderus y gall fod diffyg gwybodaeth a chysylltiadau i dde ddwyrain Cymru. Pam na fedrem ganfod mwy o fusnesau i gefnogi'r ddarpariaeth bresennol a'r hyn a ddywedodd Cyfle am ddod i'r rhanbarth? A ydynt wedi gwneud unrhyw ymchwil?

*Cydnabu Hannah y pryder a soniodd fod Cyfle wedi cysylltu gyda cholegau yn y rhanbarth ac yn cael sgyrsiau gyda chontractwyr. Mynegodd hyder yng ngallu Cyfle i gynyddu gwybodaeth a chael sgyrsiau parhaus ar draws y rhanbarth.*

- A fydd Cyfle yn cadw'r staff presennol o Y Prentis?

*Cadarnhaodd Hannah y byddai Cyfle yn sicrhau pontio llyfn ar gyfer staff a phrentisiaid, gan gadw'r staff presennol.*

- Pam na fedrwn recriwtio prentisiaid o safon a beth gawn i'n ôl o bontio i Cyfle? A oes angen y cynllun?

*Esboniodd Will nad yw'r cynllun bellach yn diwallu anghenion pobl ifanc a busnesau Sir Fynwy. Bydd trosglwyddo i Cyfle yn galluogi prentisiaid cyfredol i gwblhau eu cymwysterau a galluogi Sir Fynwy i ddatblygu cyfrwng mwy addas ar gyfer prentisiaethau yn y dyfodol.*

- Pam na chafodd rhai prentisiaid eu talu? A yw hynny oherwydd nad ydynt wedi cwblhau neu heb fod yn bresennol? Pwy sy'n eu goruchwylio?

*Cydnabu Hannah y bu heriau mewn cyfraddau cwblhau a'r rhwystrau sy'n wynebu dysgwyr.*

- Beth yw llwyddiannau allweddol Y Prentis a sut maent yn adlewyrchu cyflawni grantiau?

*Soniodd Hannah fod hyfforddi 340 prentis a sicrhau £1.95 miliwn mewn cyllid yn llwyddiannau allweddol. Cydnabu'r heriau ond tanlinellodd bwysigrwydd y llwyddiannau hyn.*

- Beth yw risgiau prentisiaid heb fod yn cwblhau, adleoli staff a'r risg i enw da?

*Amlinellodd Hannah y risgiau, yn cynnwys prentisiaid heb fod yn cwblhau eu cymwysterau, adleoli staff a niwed posibl i enw da.. Tanlinellodd bwysigrwydd pontio llyfn i liniaru'r risgiau hyn.*

- Ai'r prosiect a gynigir o fewn Cynllun Rhannu Prentisiaeth Sgiliau Adeiladu Cyfle yw'r ffordd ddelfrydol ymlaen, gan ystyried y caiff ei redeg gan gyrff sy'n seiliedig yng ngorllewin Cymru?

*Esboniodd Hannah eu bod wedi cwrdd yn rheolaidd â Cyfle ac yn hyderus yn eu model cyflenwi a'u ffocws busnes. Maent wedi bod mewn cyswllt gyda Llywodraeth Cymru ac yn credu fod y gyfatebiaeth yn addas i'r diben wrth symud ymlaen.*

- Pa sicrwydd sydd gennym y bydd y cynllun yn un proffil uchel ac nid ond rhan fawr o fwystfil mwy?

*Rhoddodd Hannah sicrwydd fod Cyfle yn awyddus yn ehangu i dde ddwyrain Cymru ac eisoes wedi bod mewn cyswllt gyda cholegau a chontractwyr yn y rhanbarth. Maent yn hyderus y bydd Cyfle yn cynyddu'r wybodaeth a phresenoldeb angenrheidiol.*

- Beth yw'r adborth gan brentisiaid am y gostyngiad mewn cyfraddau cwblhau a beth gafodd ei wneud i unioni hyn dros y ddwy flynedd ddiwethaf?

*Cydnabu Hannah y pryderon am y gostyngiad mewn cyfraddau cwblhau ac esboniodd fod diffyg cymhwyster Lefel 2 yng Nghymru yn rhwystr sylweddol. Maent wedi siarad gyda Llywodraeth Cymru am y mater hwn ac yn gwybod am yr heriau.*

- Beth yw'r adborth gan gyflogwyr a sut y cafodd hyn ei drafod yn adeiladol gyda i wella'r sefyllfa?

*Dywedodd Hannah eu bod wedi cael trafodaethau gyda chyflogwyr a Llywodraeth Cymru i drin yr heriau a gwella'r cyfraddau cwblhau.*

- Yn nhermau cyfraddau cwblhau prentisiaid, a oes cofnod o brentisiaid wedi cwblhau yn sicrhau swyddi parhaol?

*Dywedodd Hannah fod y cynllun wedi hyfforddi dros 340 o brentisiaid a bod y rhai sydd yn y ffigurau yn adlewyrchu cyflogaeth gynaliadwy. Soniodd y gallai roi dadansoddiad mwy manwl os oes angen.*

- Yn nhermau cynaliadwyedd y prosiect, rwy'n bryderus am y gorwariant o £1600, y ddibyniaeth ar grantiau, negodi'r les nesaf a'r costau brys posibl. Nid wyf yn teimlo fod gen i ddigon o wybodaeth ac mae gennyf bryderon am y cynnig.

*Atebodd Hannah eu bod yn gwybod am y gorwariant a bod incwm yn dod i fewn o nifer o ffrydiau cyllid grant a gan gontractwyr. Bu costau ychwanegol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Cydnabu bryderon yr Aelod ond dywedodd mai hwn yw'r dewis gorau wrth symud ymlaen.*

**Crynodeb y Cadeirydd:**

- Diolchodd y Pwyllgor i swyddogion am adroddiad a chyflwyniad manwl a thynnwyd sylw at y pwyntiau allweddol a drafodwyd, yn cynnwys yr heriau sy'n wynebu cynllun Y Prentis, megis gostyngiad mewn cyfraddau cyflogaeth a diffyg cymhwyster Lefel 2 yng Nghymru.

- Cydnabu Aelodau y byddai'r cynnig i symud cynllun Y Prentis i ddod yn brosiect dan Cyfle yn cynnig buddion posibl, yn cynnwys pontio llyfn i staff a phrentisiaid a'r arweinyddiaeth strategol a fyddai'n cael eu darparu gan Cyfle.

- Rydym wedi mynegi ein pryder am yr agosatrwydd at Sir Fynwy, gan fod pencadlys Cyfle yng ngorllewin Cymru ac felly teimlwn fod angen diweddariadau rheolaidd ar y cynnydd ar y symud i sicrhau llwyddiant y cynllun yn ne ddwyrain Cymru.

- Cawsom drafodaeth gynhwysfawr a mynegodd Aelodau amrywiaeth o safbwyntiau, fodd bynnag mae consensws i gefnogi opsiwn 3, sef terfynu Y Prentis a'i drosglwyddo i Cyfle.

Yn y bleidlais roedd 8 o blaid terfynu Y Prentis a'i drosglwyddo i Cyfle gydag 1 yn ymatal.

5. <u>**Blaenraglen Waith a Rhestr Weithredu'r Pwyllgor Craffu Pobl**</u>

- Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cynnwys adroddiad Archwilio Cymru ar ryddhau o ysbyty a chraffu cyn penderfynu ar yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae.

- Awgrymodd y Cynghorydd Jackie Strong y dylid adolygu polisïau'r Cyngor ar gynhwysiant, amrywiaeth ac asesiad effaith. Nodwyd y byddid yn trafod y cynllun cydraddoldeb strategol yn y cyfarfod ar 22 Gorffennaf, a allai gynnwys trafodaeth o'r materion hyn.

6. <u>**Cynllunydd Gwaith y Cyngor a'r Cabinet**</u>

Nodwyd

7. **<u>I gadarnhau cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 18fed Chwefror 2025 a 4ydd Mawrth 2025.</u>**

   Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 18 Chwefror a 4 Mawrth 2025.

8. **<u>Cyfarfod nesaf: 17eg Mehefin 2025 am 10.00am</u>**

   17 Mehefin 2025 am 10am.

The meeting ended at **4.03 pm**